Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 453 MAWRTH 2023 | AM DDIM

## CYFNOS - CYFROL NEWYDD ALAN LLWYD

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd cyfrol farddoniaeth ddiweddaraf Alan Llwyd ei lansio yng Nghanolfan Taliesin ddechrau mis Mawrth.

Mae'r gyfrol yn cynnwys cerddi personol a cherddi'n ymateb i ddigwyddiadau'r byd gan gynnwys rhyfel Wcrain. Mae ganddo gerddi hefyd i gyfeillion ac unigolion.

Bu'n siarad ar raglen Dei Tomos am y cerddi. Dywedodd ei fod yn ysgrifennu cerddi'n ddyddiol, yn hoff o wrando cerddoriaeth, ac yn rhyfeddu at y natur ddynol a all fod yn greadigol ac yn greulon.



Mae ganddo ddiddordeb mewn hanes a chwedlau, ac mae nifr o'i gerddi'n dehongli'r gorffennol. Mae un gerdd ganddo, yn gyfres o englynion, wedi'i hysgrifennu i Steve Morris, sydd wedi ymddeol o fod yn ddarlithydd yn y Brifysgol yn Abertawe.

Dyma'r englyn cyntaf:

O'i fodd fe ddysgodd ei iaith i'r rhai hy^n,
i'r rhieni uniaith,
a rhoi, wrth ymroi i'w waith,
i oedolion wlad eilwaith.

## COFIO CHARLOTTE AULL DAVIES

-HEINI GRUFFUDD

Bydd llawer o ddarllenwyr Wilia wedi clywed y newyddion trist am farwolaeth Charlotte ganol Chwefror.

Roedd Charlotte yn academydd galluog a chynhyrchiol. Ar ôl gorffen gweithio ym Mhrifysgol Abertawe bu'n gymrawd ymchwil cymdeithaseg ac anthropoleg yno, gan ddal i ysgrifennu.

Roedd ganddi ddiddordeb arbennig yn rôl y teulu, y gymuned a'r wladwriaeth wrth greu hunaniaeth yr unigolyn. Ymysg ei llyfrau mae Gender and Social Justice in Wales, Reflexive Ethnography and Welsh Nationalism in the 20th century.

Mae gweithiau eraill ganddi'n trafod hunaniaeth Gymreig a'r iaith yn Abertawe, rôl y teulu mewn cyfnod o newid cymdeithasol, a hunaniaeth ddiwylliannol.

Daeth Charlotte i Fangor yn gyntaf o Kentucky, gan ddysgu'r Gymraeg yn ystod ei chyfnod yno. Dysgodd mewn ysgolion Cymraeg cyn dod yn ddarlithydd yn y brifysgol yn Abertawe.



Bu'n gymar oes i Hywel Davies, newyddiadurwr a chynhyrchydd rhaglenni teledu dogfen.

Cymerodd Charlotte ran amlwg mewn sawl mudiad yn Abertawe ac yn genedlaethol, gan gynnwys Plaid Cymru a Chapel y Nant, Clydach a bu'n aelod hefyd o Gôr Tŷ Tawe. Roedd yn meddu ar egwyddorion 'gwyrdd' ymhell cyn i'r rhain ddod yn boblogaidd a gweithiodd hi a Hywel ar gynhyrchu'r Papur Gwyrdd am flynyddoedd.

Er arddel y Gymraeg a'i siarad ag acen led-Americanaidd hyfryd, ac anwesu gwerthoedd gorau diwylliant Cymru, cadwodd hefyd at ei hunaniaeth Americanaidd, gan dod â dathliadau gwyliau ei mamwlad i'w chartref.

Cofiwn hi am ei natur addfwyn, ddiymhongar a chydymdeimladol, a'i sgwrsio deallus . Gedy Hywel, a'u merch Elen Gwenllian ac Adam ei gŵr hithau.

## LLYFR GAN ELIN MEEK YN UN O'R LLYFRAU I DDATHLU PUM MLYNEDD O'R GYFRES BOBLOGAIDD O LYFRAU I DDYSGWYR

-HEINI GRUFFUDD

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chyngor Llyfrau Cymru yn dathlu carreg filltir arbennig eleni wrth i'r gyfres boblogaidd o lyfrau i ddysgwyr, cyfres Amdani, gyrraedd ei phumed pen-blwydd. Yn ystod 2023 bydd pob teitl yn y gyfres ar gael fel llyfr llafar am y tro cyntaf.

Mae 40 o lyfrau yn y gyfres, gan amrywiol weisg, a gomisiynwyd drwy grantiau'r Cyngor Llyfrau.

Mae'r llyfrau wedi eu graddoli ar bedair lefel dysgu – Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch, a nod y gyfres yw rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg fwynhau darllen am amrywiaeth o bynciau. Mae'r gyfres yn ffrwyth partneriaeth lwyddiannus rhwng y Ganolfan Genedlaethol a'r Cyngor Llyfrau.

Mae Gŵyl Amdani, sy'n cael ei chynnal yn rhithiol rhwng 27 Chwefror a 3 Mawrth, yn dathlu'r gyfres, ac yn rhoi cyfle i ddysgwyr fwynhau gweithgareddau a digwyddiadau yn ymwneud â darllen yn y Gymraeg.

Mae'r teitlau yng nghyfres Amdani yn cynnwys:

**Lefel Mynediad: Wynne Evans – O Gaerfyrddin i Go Compare** gan Elin Meek (Atebol)
Bywgraffiad y canwr a'r cyflwynydd Wynne Evans. Darlun personol a gonest iawn o hanes Wynne a'i deulu, ei brofiadau fel tenor enwog, a'i siwrne i ddysgu Cymraeg fel oedolyn.

**Lefel Sylfaen: Yn ei Gwsg** gan Bethan Gwanas (Atebol)
Nofel fywiog sy'n dilyn dirgelwch damwain car. Mae Dafydd, sy'n cerdded yn ei gwsg, yn deffro'n waed i gyd ... ond pwy sydd ar fai?

**Lefel Canolradd: 20 o Arwyr Cymru** gan J. Richard Williams (Gwasg Carreg Gwalch)
Llyfr sydd yn dathlu 20 o arwyr arbennig Cymru, a'u cyfraniadau pwysig. Darganfyddwch straeon am Betsi Cadwaladr, Ray Gravell, Kate Roberts, ac eraill.

**Lefel Uwch: Cawl a Straeon Eraill** (Y Lolfa)
Casgliad o straeon byrion gan awduron adnabyddus, yn cynnwys Sarah Reynolds, Mihangel Morgan a Lleucu Roberts.

## ANRHYDEDDU DAVID MATTHEWS

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd David Matthews o Frynhyfryd ei anrhydeddu gan Gôr Meibion Clwb rygbi Treforys trwy gael bod yn aelod oes.

Roedd David yn un o ddisgyblion cynnar Ysgol Gymraeg Lôn-las, a rhoddodd oes o gefnogaeth i bethau Cymraeg yn Nhreforys ac Abertawe.



## CÔR TŶ TAWE YN DATHLU GŴYL DDEWI

-HEINI GRUFFUDD

Daeth criw da ynghyd noson Gŵyl Ddewi i ddathlu'r ŵyl gyda Chôr Tŷ Tawe yn Nhŷ Tawe. Cafwyd dwy awr o adloniant a digon o gyfle i gymdeithasu. Cafodd rhai o'r hen ffefrynnau eu canu gan y côr a'r gynulleidfa, a chanodd y Côr bedair eitem. Cafwyd eitemau pellach diddan gan Clive, Catrin, Bill, Helen a Linda. Y cyfeilydd deheuig oedd Alpha.











## CYLCH TRAFOD LLYFRAU TŶ TAWE

-ELIN MEEK

Yn anarferol iawn i'r Cylch Trafod, roedd pawb yn gytûn ac wedi cael blas mawr ar lyfr mis Ionawr, sef Y Defodau gan Rebecca Roberts, felly mae i'w argymell yn frwd. Mae hanes Gwawr, sy'n cynnal seremonïau, priodasau ac angladdau digrefydd wedi'i blethu'n gelfydd iawn â hanesion unigolion y seremonïau.

Pridd gan Llŷr Titus oedd llyfr mis Chwefror; llyfr i'w ddarllen gan bwyll er mwyn mwynhau rhyddiaith gain yr awdur. Rhanedig oedd y farn am y llyfr hwn ond roedd y rhai a oedd wedi'i fwynhau o'r farn y gallai fod ar restr fer Llyfr y Flwyddyn 2022. Anodd credu bod awdur mor ifanc yn gallu portreadu hen ŵr mor llwyddiannus.

Ym mis Mawrth darllenwyd Braw Agos gan Sonia Edwards, lle mae'r awdur yn mentro i faes trosedd gyda dau gymeriad newydd. Rhanedig oedd y farn am y llyfr hwn hefyd, gyda rhai yn mwynhau'n enfawr ond rhai yn methu dilyn trywydd yr holl gymeriadau a'u llysenwau.

Y llyfrau nesaf i'w trafod fydd yr isod. Sylwer mai ar drydedd nos Lun y ddau fis hyn y byddwn yn cwrdd oherwydd y gwyliau banc, yn Nhŷ Tawe am 7:30 am ryw awr. Croeso i hen aelodau ac aelodau newydd; does dim angen ymrwymo i ddarllen pob llyfr.

*17 Ebrill* O! Tyn y Gorchudd, Angharad Price, Y Lolfa, £8.99 Clasur o 2002

*15 Mai* Llyfr y Flwyddyn, Mari Emlyn, Gwasg y Bwthyn, £7.99

## RHIAN YN RHEOLI TALIESIN

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd Rhian Jones, Ysgrifennydd Tŷ Tawe, ac un o Gyfarwyddwyr Menter Iaith Abertawe, ei phenodi'n Rheolwr gweithgareddau yn Theatr Taliesin, ym Mhrifysgol Abertawe.
Daw o Dalybont, Cerdigion, ond mae hi wedi byw yn Abertawe am fwy nag ugain mlynedd.
Soniodd am ei bywyd a'i phrofiadau ar raglen Dei Tomos ar Radio Cymru. Cafodd radd yn Almaeneg a Ffrangeg yn Abertawe, a threulio cyfnod yn Salzburg. Dysgodd y Gymraeg ym Mhrifysgol Rennes yn Llydaw, a threulio amser hefyd yn crwydro'n byd, gan gynnwys cyfnod yn Awstralia.
Bu'n gweithio am gyfnod i Shelter Cymru, a bu'n rhedeg Canolfan Gymraeg Llundain. Gweithiodd hefyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac i'r Brifysgol Agored cyn derbyn y swydd bresennol.
Mae hi'n edrych ymlaen at yr her o redeg Taliesin fel canolfan fydd yn croesawu ymwelwyr yn ogystal â denu myfyrwyr i'w gweithgareddau.



## DYDDIAD I'CH DYDDIADUR!

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU TALIESIN,
16/04




## CYNGERDD I HELPU DIODDEFWYR

-HEINI GRUFFUDD

Bydd pedwar o gorau Treforys yn canu mewn cyngerdd yn y Tabernacl Treforys i godi arian i'r rhai ddioddefodd yn y ffrwydrad yn y dre.
Bydd Côr Merched Treforys, Côr Meibion y Clwb Rygbi, Côr Orpheus Treforys a Chôr y Tabernacl yn cymryd rhan mewn cyngerdd nos Fercher, Ebrill 5, am 7.
Caiff cyfraniadau eu gwahodd i helpu'r teuluoedd a gollodd eu cartrefi.
Kevin Johns fydd yn arwain y noson.

## MYFYRWYR DRAMA - CYFLE I ENNILL YSGOLORIAETH O £2000

-HEINI GRUFFUDD

Eleni eto, mae Cymdeithas Drama Gymraeg Abertawe yn cynnig ysgoloriaeth eleni eto - £2,000 am flwyddyn i unigolion dros 18 oed (ar 1 Medi 2023) sydd am ddilyn cwrs yn un o ddisgyblaethau'r ddrama (perfformio, cyfarwyddo, sgriptio ac ati).

Gweinyddir y broses o wobrwyo'r ysgoloriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ysgrifenedig trwy ffurflen gais yn y lle cyntaf ac yna mewn cyfweliad i'r rhai sy'n cyrraedd rhestr fer.
Am ffurflen gais a/neu fanylion pellach, cysyllter â post@dramaabertawe.com
Y dyddiad cau am geisiadau yw 30 Mehefin 2023.

## CYFARFOD Y CYLCH CINIO

-CATRIN ROWLANDS

Ar Fawrth y cyntaf, cynhaliwyd cyfarfod y Cylch Cinio yn Nhŷ Norton y Mwmbwls. Dr Elin Jones yr hanesydd nodedig oedd y gwestai gwadd a chafwyd sgwrs ddifyr ganddi wedi'r wledd.
Rhannodd y straeon a'r digwyddiadau a fu'n hwb i fwrw ati i lunio'r gyfrol 'Hanes yn y Tir'. Balch iawn oedd trigolion dwyrain y ddinas o weld llun o'r ddinas o lethrau Mynydd y Bigwrn/Cilfài yn ymddangos ar y sgrin. Bu Dr Elin Jones yn pwyso a mesur ceisiadau gan ysgolion am brosiectau hanes lleol a dyma lun tebyg i sylfaen y cais a welwyd ganddi gan Adran Hanes Ysgol Cefn Hengoed â theitl y cywaith 'pa newidiadau fyddai yn y llun dros 1000 o flynyddoedd'. Prosiect dan arweiniad Mrs Ann Jones, athrawes hanes yr ysgol a mam Alun Wyn - cyn gapten Cymru. Adnabu Dr Elin Jones botensial y prosiect hwn ac aeth ati i ystyried pa hanes oedd yn nhir a daear Cymru.

Cyfarchwyd Dr Elin Jones ar ddiwedd y sesiwn gan Elin Meek drwy'r englyn,

Dr Elin Jones (Hanes yn y tir)
Brenhines ein hanes yw hi-yn wir
Bu'n wych wrth ymroddi'n
Dalog i gyfoethogi
Erw noeth ein stori ni.

Dr Elin Dalis Meek
Dydd Gwyl Dewi 2023



## Gweithdy Newyddiaduraeth
-Meinir Jones, Pennaeth yr Adran Gymraeg

Cafodd criw o fl.8 a 9 Ysgol Bryn Tawe weithdy gyda Sioned Dafydd am y broses o gyfweld mewn newyddiaduraeth chwaraeon. Yna, cafodd y disgyblion gyfle i roi eu sgiliau newydd ar waith a holi rhai ym myd rygbi Cymru heddiw, sef Iwan Shenton a Lauren Smyth. Cawsant brynhawn arbennig yn dysgu sut i holi cwestynau difyr am eu gyrfaoedd, eu cefndiroedd a'u huchelgeisiau. Diolch i'r tri am ddod i Fryn Tawe ac am brynhawn diddorol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi!



## Diwrnod y Llyfr
-Meinir Jones, Pennaeth yr Adran Gymraeg

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr eleni, aeth criw o fl.9 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe i ddarllen gydag ysgolion Gellionnen, Tirdeunaw a Tan-y-Lan. Darllenwyd straeon amrywiol i'r plant ac edrychwn ymlaen at ymweld ag Ysgol Y Cwm ddydd Llun. Gobeithio i bawb gael eu hatgoffa o'r mwynhad sydd i'w gael o ddarllen llyfrau.





## Fy wythnos gyda chwmni WGTYC
– Kathryn Philpin, Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Dros yr hanner tymor roeddwn i'n rhan o gynhyrchiad o'r llyfr "Lord of the flies" gan William Golding gyda'r cwmni drama "West Glamorgan Youth Theatre Company" (WGYTC) . Mae'r sioe yn ffocysu ar themâu fel pŵer, rheolaeth a moesoldeb wrth i grŵp o plant ddiweddu lan ar ynys ar ôl i awyren blymio i'r ddaear yn ystod yr ail rhyfel byd, gan adael y plant yma heb unrhyw oedolion i ofalu amdanynt. Mae'r grŵp o blant yn rhannu'n grwpiau yn gyflym wrth iddyn nhw frwydro dros arweinyddiaeth yr ynys, ac rydym yn profi'r ddwy ochr wahanol i ddynoliaeth. Rhoddon ni'r cynhyrchiad yma at ei gilydd mewn wythnos ac i safon uchel iawn. Roedd cael y siawns i weithio gyda actorion proffesiynol yn fanteisiol iawn i mi er mwyn helpu fy ngyrfa yn y ddyfodol. Hefyd roedd y profiad yma wedi helpu mi i greu ffrindiau newydd sy'n rhannu'r un diddordebau a fi. Dwi'n edrych ymlaen yn barod at y cwrs nesaf!

## Seremoni Gadeirio 2023
-Meinir Jones, Pennaeth yr Adran Gymraeg

Eleni, oherwydd twf Ysgol Bryn Tawe, cynhaliwyd dwy Seremoni Gadeirio fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi yr ysgol. Cynhaliwyd Seremoni Gadeirio i fl.10-13 ben bore, ac yna Seremoni Gadeirio Cadair Fach i fl.7-9 cyn cinio.

Trosglwyddwyd yr awenau yn ôl yr arfer i rai o brif swyddogion yr ysgol, sef Anest Cunliffe, Morgan Davies a Siôn Thomas.

Eleni, Sioned Dafydd, cyn-ddisgybl i'r ysgol, oedd y beirniad. Diolchwn iddi am ei holl waith wrth feirniadu. Daeth hi'n amlwg bod y cystadlaethau o safon uchel ac nad tasg hawdd oedd beirniadu!

Roedd 'Heulwen' wedi plesio'r beirniad yn fawr a phleser oedd gweld Nataya Lewis o Flwyddyn 12 yn codi o'i sedd yng nghefn y neuadd i dderbyn y fraint o fod yn brif lenor yr ysgol eleni! Cafodd gymeradwyaeth wresog gan ddisgyblion hŷn yr ysgol. Llongyfarchiadau enfawr iddi. Yn ail am y gadair hŷn oedd Jonah Eccott o flwyddyn 11 ac yn drydydd oedd Mirain Owen o flwyddyn 13!

Yn ein Seremoni blwyddyn 7-9, hyfryd oedd gweld 'Mostyn', sef Fanw Watson o flwyddyn 7 yn codi ar ei thraed i ennill ein cadair fach. Yn ail oedd Tirion Clarke o fl.9 ac yn drydydd oedd Maiwen Watson o flwyddyn 9.

Hoffai'r Adran Gymraeg ddiolch yn fawr i bawb a gystadlodd ac yn arbennig i'r staff a'r disgyblion a fu'n rhan o'r seremoni- yn enwedig Keira Hopkins, Evie Barr a Cari Kiernan am ganu cân y cadeirio, i Arwen Garland am gyfeilio ar y delyn, Mr William Bott am ganu'r ffanffer ar y trwmped a Ffion, Ellie, Dylan a Rebecca am gyrchu'r buddugol. Hyfryd hefyd oedd gweld cynrychiolwyr o bob blwyddyn ar y llwyfan a hwythau wedi'u dewis am ymrwymiad i Gymreictod yn yr ysgol.

Llongyfarchiadau hefyd i Sinead o'r Chweched am ennill y Tlws Saesneg hŷn a Riain o fl.9 am ennill y tlws iau.





## NEWYDDION GWAEL, NEWYDDION GWELL

-ROB EVANS

Wel mae newyddion gwael a newyddion gwell o Abertawe'r mis yma.

Y newyddion gwael yw nad oedd digon o aelodau ar ôl i alluogi ni ail-ddechrau Cymdeithas Ceredigion yn Sgeti gan fod llawer o aelodau wedi ein gadael ni.

Y newyddion gwell? Mae grŵp newydd o ddysgwyr wedi ei sefydlu yn Newton ger Mwmbwls ac, wythnos diwethaf yn eu hail cyfarfod, roedd dros bymtheg o aelodau yn siarad yn frwdfrydig yn yr iaith Gymraeg. Fy ngobaith i yw y bydden ni'n gallu sefydlu Cymdeithas Cymraeg Sgeti ym mis Medi a chael cymysgedd dda o ddysgwyr a Chymry Cymraeg.

Erbyn hyn mae tri grŵp o ddysgwyr yn yr ardal yn cyfarfod yn wythnosol. Grŵp Southgate wedi bodoli am tua 8 mlynedd, Llanmadoc am flwyddyn a Newton newydd ddechrau. Rhyngddyn nhw mae dros 50 o ddysgwyr. Pwy ag ŵyr faint o grwpiau fydd yma mewn blwyddyn?

Mae'r ffaith bod y grwpiau hyn wedi cael eu ffurfio yn dangos bod dysgwyr yn awyddus i ddefnyddio'r iaith yn ymarferol ar ôl ei ddysgu'n ddamcaniaethol.

Yma, yn Abertawe, dw i'n gweld cerrig stepiau yn cael eu creu rhwng y dosbarthiadau nos, y grwpiau a'r cymdeithasau Cymraeg. Mae'r cerrig stepiau yna yn golygu bod ni'n gallu gweld ffordd glir i adfywio ein cymdeithasau a hynny mewn ffordd hunan cynhaliol.

Hunan cynhaliol? Wel ia, pob blwyddyn mae miloedd o bobl yn cofrestru i ddysgu Cymraeg, hyd at rŵan doedd dim llwybr clir i'r gymuned Cymraeg iddyn nhw. Ond os yw'r grwpiau yn llwyddiannus ac yn dal yn cadw cysylltiad â'r dosbarthiadau nos byddai'n cymunedau'n cael eu bwydo pob blwyddyn efo dysgwyr brwdfrydig.

Newyddion da yn wir!

Ond mae popeth yn dibynnu ar y dysgwyr eu hunain yn cael y syniad ac yn cael eu sbarduno. Wel mae'r Tiwtoriaid mewn cysylltiad â'r dysgwyr, a'r Coleg Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r tiwtoriaid. Tybed a fyddai'r Coleg yn fodlon cael y neges trwodd?

Er mwyn ein hiaith.

Barn...

## DAU O ABERTAWE YN DATHLU PROTEST PONT TREFECHAN

-MARI EVANS

Daeth tyrfa o bobl at ei gilydd yn Aberystwyth i nodi bod chwe-deg o flynyddoedd wedi pasio ers cynnal gwrthdystiad enwog dros y Gymraeg ar Bont Trefechan - yn eu plith dwsin a gymerodd ran yn y protest gwreiddiol. Trefnwyd diwrnod i'w hanrhydeddu gan Gymdeithas yr Iaith

Yn y llun mae dau o ardal Abertawe fu yno'n eistedd i lawr ar y bont yn 1963 - Ann Davies, Penllergaer a Guto Ap Gwent, Kittle. Un arall o Abertawe ar y bont oedd Robat Gruffudd. (Llun gan Mari Evans)




## BRWYDRO DROS GADW SWYDDFA'R POST

-HEINI GRUFFUDD

Bu Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Swyddfa'r Post yn Abertawe'n aros ar agor.

Dywedodd Y Dr Dai Lloyd, cyn-Aelod Senedd Cymru yn rhanbarth De-Orllewin Cymru, y byddai cau'r Swyddfa'r Post Sgeti'n ergyd sylweddol i'r gymuned.

"Dyma Swyddfa'r Post brysur sy'n rhoi gwasanaeth gwerthfawr i bobl leol, a byddai'r golled annisgwyl hon yn bwrw busnesau lleol yn ogystal â'r llu o bobl eraill sy'n ei defnyddio", meddai Dr Lloyd.

"Dylai Llywodraeth Cymru weithredu'n awr i sicrhau bod y Swyddfa'r Post yn aros ar agor", medd Dr Lloyd mewn llythyr i'r Gweinidog am yr Economi, Vaughan Gething.

"Mae'r bygythiad diweddaraf hwn yn dangos bod rhaid trosglwyddo rheolaeth o'n gwasanaethau post i Gymru, ac nad yw'r fodel o hanner preifateiddio gan San Steffan yn gweithio."

Roedd poster ar y ffenest yn nodi y byddai Swyddfa'r Post Sgeti i fod i gau'i drysau Ddydd Llun 27 Chwefror ac ni fydddai'n ail-agor.

Ar hyd y blynyddoedd bu'r Swyddfa Bost hon yn gwerthu copiau o Wilia, a chalendr Abertawe, ac roedd ganddi ddetholiad da o gardiau Cymraeg.



Barn...

## CLEIF HARPWOOD YN NHŶ TAWE

Noson wych yn Nhŷ Tawe gyda Cleif Harpwood a Lisa Pedrick!

Lluniau - Stay.Focused.Photography



## GŴYL TAWE 2023

Rydym yn falch iawn i gyhoeddi y bydd Gŵyl Tawe yn dychwelyd eleni i leoliad newydd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar ddydd Sadwrn, Mehefin 10fed. Cadwch y dyddiad!




## CYNLLUN CHWARAE PASG

Mae ein Cynlluniau Chwarae i blant oedran 8+ yn dychwelyd dros y Pasg!

03/04-05/05 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Am ddim! Gwybodaeth: menterabertawe.org




## SESIWN LLESIANT COETIR

Ymuna gyda Coed Lleol Small Woods Swansea sesiwn llesiant coetir yn y Gymraeg ar Fynydd Cilfai!
Addas i siaradwyr o bob lefel!
Dydd Mercher, 03/05
10:30yb -13:00yp
Gwybodaeth:
actifwoodsswansea@smallwoods.org.uk




## CYNNIG GWAITH

Rydym yn chwilio am bobl frwdfrydig ac egnïol i ymuno â thîm Menter Iaith Abertawe! E-bostiwch swyddfa@menterabertawe.org am wybodaeth bellach.




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

12.04 - NAWR: Infinity Knives (Tŷ Tawe)
15.04 - HMS Morris + Elis Derby (Clwb Rygbi, Castell-nedd)
28.04 - Pwdin Reis + Dadleoli (Tŷ Tawe)
05.05 - The Night School + Eraill (Elysium Gallery)
07.05 - Melin Melyn (Bunkhouse)
10.06 - Gŵyl Tawe (Amgueddfa'r Glannau)

Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Mawrth erbyn Ebrill 17eg trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government










